

TESTUN: Rhaglen YSGOLION YR 21AIN GANRIF Cyngor Sir Fynwy -
CANLYNIAD YMGYNGORIAD YNGLŶN Ô SEFYDLU YSGOL POB
OED (4-19) YN Y FENNI

CYFARFOD: CABINET
DYDDIAD: 6 Hydref 2021

WARDIAU A EFFEITHIR: Cantref, Castle, Croseonen, Grofield, Landsdown, Y
Maerdy, Priory, Llanelly Hill, Llanofar, Goetre Wharf, Llanwenarth Ultra, Llan-ffwyst
Fawr a Chrucornau

1. PWRPAS:

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yw hysbysu aelodau o'r Cabinet o ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus diweddar sydd yn ymwneud gyda bwriad yr Awdurdod i sefydlu ysgol pob oed gyda chanolfan arbenigol ar gyfer plant sydd ag anghenion niwroddatblygol a dysgu cymhleth yn Y Fenni ar safle Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII.
- 1.2 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno adroddiad yr ymgynghoriad i'r Cabinet ac yn gofyn iddynt gymeradwyo ein cais i symud i'r cam nesaf h.y. cyhoeddi'r hysbysiadau statudol.
- 1.3 Dylai Aelodau adolygu'r newidiadau sydd wedi eu cynnig i'r cynnig arfaethedig. Yr elfen fwyaf yw newid yr ysgol 4-19 ag addysg feithrin nas cynhelir i fod yn ysgol 3-19 ag addysg feithrin a gynhelir.
- 1.4 Mae Aelodau yn ymwybodol fod cytundeb i barhau gyda'r prosiect a'r cyllid perthnasol yn amodol ar wneud penderfyniad arall. Pwrpas yr adroddiad yw cytuno ar y llwybr sydd wedi ei amlinellu a fydd yn caniatáu creu'r ysgol.

2. ARGYMHELLION:

Rydym yn argymhell fod Aelodau yn:

- 2.1 Cytuno i gyhoeddi hysbysiadau statudol yn unol gyda Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 er mwyn sefydlu Ysgol pob oed gyda chanolfan arbenigol ar gyfer disgyblion ag anghenion niwroddatblygol cymhleth rhwng 3 a 19 yn Y Fenni.
- 2.2 Cytuno i gyhoeddi hysbysiadau statudol a fydd yn golygu ymatal rhag cynnal Ysgol Gynradd Deri View ac Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII.

3. MATERION ALLWEDDOL:

Rhesymeg ar gyfer yr Ymgynghoriad

- 3.1 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i roi'r dechrau gorau posib mewn bywyd i bob person ifanc yn Sir Fynwy fel sydd wedi ei amlinellu yn y Cynllun Corfforaethol. Mae gwella cyraeddiadau addysgol a chyraeddiadau'r holl blant a phobl ifanc yn y sir wrth wraidd hyn.
- 3.2 Ym mis Hydref 2017, roedd y Cabinet wedi cytuno bod y Cyngor yn cyflwyno cynigion Band B y Cyngor i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Rhan sylweddol o'r cynnig yw sefydlu ysgol pob oed ar safle Brenin Harri'r VIII yn Y Fenni.
- 3.3 Mae ysgol pob oed yn cyfuno cyfnodau addysg gynradd ac uwchradd, ac ar adegau addysg feithrin a chweched dosbarth, o fewn un sefydliad. Mae'n cynnig addysg barhaus i ddisgyblion. Mae'r ysgol yn cael ei harwain a'i rheoli gan un pennaeth, un corff llywodraethu a chaiff ei hariannu fel un ysgol.

Elfennau allweddol y cynnig

- 3.4 Bydd y cyfleuster arfaethedig angen cynnwys cyfleusterau ar gyfer y disgyblion canlynol:
 - 1200 o ddisgyblion rhwng 11 a 16,
 - 200 yn y chweched dosbarth,
 - 420 o ddisgyblion ysgol gynradd, a
 - 30 o ddisgyblion llawn amser yn yr addysg feithrin.¹
- 3.5 Bydd yr ysgol newydd hefyd angen cynnwys darpariaeth ar gyfer 71 o ddisgyblion sydd ag anghenion niwroddatblygol cymhleth (16 Cynradd ac 55 Uwchradd).
- 3.6 Mae Ysgol Gynradd Deri View wedi ei chynnwys o fewn y cynnig. Os yw'r cynnig yn mynd ei flaen, bydd yr ysgol yn ffurfio elfen gynradd o'r ysgol newydd pob oed a byddai'r safle Deri View presennol a'r adeiladau yn cael eu haddasu at ddibenion gwahanol er mwyn darparu llety ar gyfer y nifer cynyddol o ddisgyblion sydd am ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn mynychu Ysgol Gymraeg Y Fenni.
- 3.7 Ers 2017, mae gwaith pellach wedi ei wneud ac mae cynnig Dechrau'n Deg ac ehangu Canolfan Adnoddau Anghenion Arbennig i gefnogi disgyblion ag anhwylderau niwroddatblygol cymhleth² nawr yn rhan o'r cynnig. Mae CAAA yn Deri View a byddai'r cynnig hwn yn parhau gyda'r ddarpariaeth hon hyd at Gyfnodau Allweddol 3, 4 a 5.
- 3.8 Roedd yna gynnig y byddai darpariaeth addysg feithrin ar y safle ond ni fyddai'n cael ei chynnal, ac felly, ni fyddai'n rhan o unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus.
- 3.9 Mae trafodaethau helaeth wedi eu cynnal rhwng swyddogion a Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg Sir Fynwy. Canlyniad y drafodaeth hon yw bod y cynnig i gynnwys ffrwd Cyfrwng Cymraeg fel rhan o Gyfnod Allweddol 3 wedi ei ddileu. Mae'r Fforwm wedi mynegi dyhead am brofiad ymdrochi llwyr ar gyfer Siaradwyr Cymraeg. Fel rhan o adnewyddu'r Cynllun Strategol Addysg Gymraeg, a fydd yn rhan o adroddiad pellach i Aelodau, mae swyddogion wedi ymrwymo i adolygu'r potensial ar gyfer sefydlu darpariaeth Cyfnod Allweddol 3 ar safle Deri View os oes yna ofod ar gael.
- 3.10 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi ehangu Ysgol Gyfun Gwynllyw yn ddiweddar ac yn hyderus bod yna lefydd ar gael ar gyfer disgyblion o Ysgol Y Fenni. Mae uwch swyddogion mewn trafodaethau cynnar gydag awdurdodau cyfagos er mwyn cytuno ar drefniant fel bod modd ehangu'r ddarpariaeth uwchradd fel rhan o gynigion Band C rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif.

¹ Mae'r niferoedd yma yn seiliedig ar ymgynghoriad gyda Chyngor Sir Fynwy a'r adran gynllunio.

² Maent yn cynnwys plant ag anableddau sydd yn effeithio ar eu hymddygiad, eu cof a'u gallu i ddysgu. Mae enghreifftiau yn cynnwys Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd, anhwylderau dysgu ac awtisiaeth.

Buddion ysgol pob oed

- 3.11 Mae'r dystiolaeth sydd ar gael³ yn awgrymu fod ysgolion pob oed yn cael effaith gadarnhaol ar sawl agwedd o reoli'r ysgol o ddydd i ddydd, datblygiad personol y staff a phrofiad addysgol a'r canlyniadau ar gyfer disgyblion. Fodd bynnag, dylid nodi fod y llenyddiaeth gyfredol sydd ar gael wedi ei gyfyngu. Mae Napieralla, et al sydd yn ysgrifennu ar gyfer Prifysgol Abertawe, ond wedi nodi llond llaw o bapurau rhyngwladol. Mae yna dystiolaeth ar gael o adroddiadau Arolygon Ofsted a rhai prosiectau ymchwil llai. Mae adroddiad Arolygiaeth yr Alban '*Opening up learning in all-through schools*'⁴ yn cynnig tystiolaeth ddefnyddiol o ran dysgu ac addysgu tra bod yr Adran Addysg a Sgiliau '*All-Age Schooling: A Resource*'⁵ yn cynnig set ,wy ymarferol o ystyriaethau. Mae swyddogion o Gyngor Sir Fynwy hefyd wedi cysylltu gyda chydweithwyr mewn nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru sydd wedi datblygu ysgolion pob oed, fel Cyngor Sir Ceredigion, er mwyn deall y buddion a'r prosesau sydd wedi eu cynnal. Mae yna dystiolaeth ddefnyddiol a thystiolaeth newydd ar gael yn *All Age Schools Forum*.⁶
- 3.12 Mae'r cyfle gan ysgol i osod ethos clir a gwerthoedd a disgywiliadau sydd yn cael eu deall. Mae adnodd yr Adran Addysg a Sgiliau yn amlygu hyn fel un o'r pum egwyddor allweddol. Mae rhai ysgolion pob oed wedi profi gostyngiad yn y nifer o bobl sydd yn cael eu gwahardd a gwelliant dramatig yn ymddygiad disgyblion. Mae yna enghreifftiau hefyd wedi bod o leihau'r dirywiad mewn perfformiad y mae disgyblion yn profi ym Mlynnyddoedd 7 a 8. Efallai bod hyn yn sgil gorfod ail-adrodd yr holl wybodaeth fanwl sydd wedi ei rhannu gyda disgyblion cyn eu bod yn symud i'r ysgol uwchradd.
- 3.13 Tra bod pob un disgybl yn perthyn i sefydliad addysgol sengl, mae'n bwysig nodi bod ysgolion pob oed – er yn cynnig cyfle i rannu cyfleusterau ac adnoddau – yn cynnig cyfleusterau ar wahân i ddysgwyr o oedran gwahanol e.e. llety dysgu ar wahân, amser dechrau a gorffen gwahanol ynghyd ag ardaloedd ar wahân i ddefnyddio adeg egwyl.
- 3.14 Mae datblygu ysgolion pob oed yn gyson gyda Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol y Cyngor ac ymroddiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y sir er mwyn helpu trawsnewid bywydau. Mae ysgolion pob oed yn cynnig nifer o fuddion i blant a phobl ifanc sydd o dan anfantais gan dlodi ac anghydraddoldeb a'r rhai sydd yn derbyn pryddau ysgol am ddim. Mae ysgolion pob oed yn medru gwella cyrhaeddiad drwy sefydlu continwmm o ran addysg rhwng 3 ac 19, gan leihau'r dirwyasid mewn perfformiad yn ystod y cyfnod pontio tra hefyd yn monitro data sydd yn caniatáu bod modd monitro cynnydd a chanlyniadau er mwyn llywio cynlluniau ar gyfer y dyfodol.
- 3.15 Mae Napierall et yn datgan⁷:

Findings in all of these sources consistently point to the following strengths of the all-age model:

- *Improved teaching and learning resulting from joint working and planning, sharing of good practice and developing uniform standards for teaching, learning and assessment framework, and a common understanding of transition requirements;*
- *Smoother transition between phases for the pupils arising from familiarity with the school and teachers, cross-phase pedagogical practices and clearer expectations as children progress through the key educational stages;*
- *Reduced performance dips owing to the better coherence, continuity but also flexibility associated with cross-phase teaching and learning;*
- *Strong ethos and high quality of relationships resulting from common vision and core values, continuity of experience and consistent approach in addressing any behavioural issues;*
- *Better pastoral care and emphasis on wellbeing owing to the better knowledge of pupils remaining in the same environment throughout their learning journey;*

- *Enhanced support for children with additional learning needs and a culture of inclusion;*
- *Improved parental involvement that carries over from the primary through to the secondary stage, and increased opportunities for community engagement and development;*
- *Better economic efficiency due to sharing of resources.*

Proses yr ymgynghoriad

- 3.16 Roedd y penderfyniad gan y Cabinet (14^{eg} Ebrill 2021) i fwrw ymlaen gydag ymgynghoriad cyhoeddus yn golygu bod angen mabwysiadu dull gwahanol i'r dulliau mwy traddodiadol o gynnal ymgynghoriad. Mae presenoldeb COVID-19 yn y gymuned a chyfyngiadau'r llywodraeth o ran pobl sydd yn medru dod ynghyd wedi golygu bod rhaid cynnal prosesau rhithiol ar gyfer nifer o gyfarfodydd. Roedd yna dipyn o achosion hefyd yng nghymuned Deri View yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad a bu'n rhaid ymestyn cyfnod yr ymgynghoriad o chwe wythnos i naw wythnos (26^{ain} Ebrill 2021 - 25^{ain} Mehefin 2021).
- 3.17 Fel rhan o'r broses ymgynghori, mae'r Cyngor wedi cynnal sesiynau ymgynghori gyda staff, llywodraethwyr, rhieni ac aelodau o'r gymuned er mwyn sicrhau bod yna ymgysylltu priodol gyda'r sawl sydd am ddysgu mwy am y cynnig. Roedd y sesiynau wedi eu cynnal ar y dyddiadau / amseroedd canlynol:

Tabl 1

Ysgol Gynradd Deri View		
Ymgynghoreion	Dyddiad	Lleoliad
Staff	27ain Mai 2021	Cyfarfodydd Teams
Llywodraethwyr	15fed Mehefin 2021	Cyfarfodydd Teams
Rhieni	22nd Mehefin 2021	Cyfarfod Corfforol
Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII		
Ymgynghoreion	Dyddiad	Lleoliad
Staff	26ain Mai 2021	Cyfarfodydd Teams
Llywodraethwyr	26ain Mai 2021	Cyfarfodydd Teams
Rhieni	26ain Mai 2021	Cyfarfodydd Teams
Ymgynghoreion	Dyddiad	Lleoliad
Y Gymuned Ehangach	9fed Mehefin 2021	Cyfarfodydd Teams
Y Gymuned Ehangach	17eg Mehefin 2021 Dwy sesiwn	Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII

- 3.18 Roedd Uwch Swyddogion o gyfarwyddiaeth y Cyngor ar gyfer Plant a Phobl Ifanc wedi mynychu'r holl sesiynau ymgynghori, gan roi'r cyfle i bobl i ddysgu mwy am y cynnig a gofyn unrhyw gwestiynau a chodi unrhyw bryderon.
- 3.19 Roedd y swyddogion a fynychodd y cyfarfod ymgynghori wedi rhoi sicrwydd y byddai unrhyw sylwadau neu bryderon yn cael eu bwydo i mewn i'r broses ymgynghori. Roedd ymgynghoreion hefyd wedi eu hannog i gyflwyno eu hymatebion drwy unrhyw un o'r dulliau ffurfiol a oedd ar gael. Mae'r holl gwestiynau ac ymatebion sydd yn cael eu derbyn ac wedi eu mynegi yn ystod y broses, yn rhai ysgrifenedig a rhai sydd wedi eu mynegi yn y cyfarfodydd, ar gael yn adroddiad yr Ymgynghoriad.

Materion Sy'n Dod i'r Amlwg

Tabl 2.

Thema	
1.	Pryderon fod y ddarpariaeth addysg feithrin yn un nas cynhelir
2.	Effaith y cynnig ar Ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
3.	Y farn a dderbyniwyd sydd yn ymwneud gyda Logisteg a'r adeilad ysgol newydd
4.	Effaith ar Gyfleusterau Hamdden
5.	Effaith ar staff
6.	Pryderon Diogelu
7.	Effaith ar ddisgyblion
8.	Barn a dderbyniwyd a'n ymwneud gyda strwythur a llywodraethiant
9.	Barn a dderbyniwyd a'n ymwneud gyda'r cynnig
10.	Barn a dderbyniwyd a'n ymwneud ag enw'r ysgol newydd
11.	Barn a dderbyniwyd a'n ymwneud â'r broses ymgynghori
12.	Effaith ar ddarpariaeth ôl-16
13.	Effaith ar ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg
14.	Effaith ariannol

3.20 Yn sgil y dulliau gwahanol a ddefnyddiwyd o ran cynnal y cyfarfodydd, roedd yr ymgynghoriad wedi arwain at ystod o farn wahanol o am y datblygiad arfaethedig. Mae Tabl 2 yn nodi ystod y pryderon a'r cwestiynau a nodwyd gan y cyhoedd a budd-ddeiliaid allweddol. Mae'r ymatebion yr awdurdod i'r holl faterion a godwyd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad Ymgynghoriad ffurfiol. Yn yr adroddiad eglurhaol hwn, rydym yn mynd i'r afael gyda'r pedwar prif bryder a nodwyd yn ystod y broses.

Sefydlu canolfan addysg feithrin nas cynhelir

- 3.21 Y prif bryder a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad oedd natur y ddarpariaeth addysg feithrin yn yr ysgol newydd. Roedd hyn wedi dominyddu llawer o'r trafodaethau ac yn rhan amlwg iawn o'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan Ysgol Gynradd Deri View ac Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII.
- 3.22 Mae Addysg Blynnyddoedd Cynnar yn Y Fenni yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd gan gyfuniad o ganolfannau sydd wedi eu cynnal a rhai na sydd wedi eu cynnal. Mae yna feithrinfeydd yn Ysgol Gynradd Cantref, Ysgol Gynradd Deri View ac Ysgol Gymraeg Y Fenni, sy'n cynnig cyfanswm o 210 o lefydd rhan amser; mae'r ysgolion cynradd eraill yn cael eu bwydo gan ganolfannau nas cynhelir. Mae 8 o ganolfannau nas cynhelir wedi eu cymeradwyo i ddarparu addysg gynnar o gwmpas Y Fenni sydd yn cynnig tua 200 o lefydd ac mae'r rhain yn medru bod yn llefydd rhan amser neu'n rhai llawn amser.
- 3.23 Mae'r penderfyniad ynglŷn ag a ddylai'r ddarpariaeth addysg feithrin yn yr ysgol newydd fod yn un a gynhelir neu'n un nas cynhelir yn gymhleth iawn gan fod yna fanteision ac anfanteision ar gyfer pob opsiwn.
- 3.24 Mae meithrinfa a gynhelir yn rhan o'r ysgol gynradd ac yn cael ei rheoli gan y Pennaeth. Mae'n cael ei harwain fel arfer gan athro cymwys ac yn cynnig pum sesiwn yr wythnos am 2 ½ awr yr un. Gan fod y cwricwlwm newydd ar gyfer plant ifanc dros 3, mae yna gyfle ar gyfer parhad a chysondeb o ran yr addysgu. Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol fel gwasanaethau, ac felly, maent yn rhan amlwg iawn o'r ysgol ac yn dod yn gyfarwydd gyda staff yr ysgol gan ganiatáu cyfnod pontio didrfferth wrth symud o'r Feithrinfa i'r Dosbarth Derbyn. Mae'r ffaith mai'r Pennaeth sydd yn gyfrifol am reoli yn golygu mai'r Pennaeth sydd yn gyfrifol am werthuso staff, yr adroddiad hunanwerthuso, (SER), cynllun gwella ysgol (SIP) a materion rheoli eraill, gan arwain at staff y feithrinfa yn meddu ar y gallu i ffocysu ar y plant a'r dysgu a'r addysgu.
- 3.25 Prif anfantais meithrinfa a gynhelir yw bod yna ddiffyg hyblygrwydd: mae plant yn cael cynnig naill ai pum sesiwn yn y bore neu pum sesiwn yn y prynhawn bob wythnos ac nid oes opsiwn i ymestyn yr oriau neu eu hamrywio mewn unrhyw ffordd ac nid yw hyn yn helpu rhieni sydd yn gweithio. Rydym wedi gweld dirywiad graddol yn y nifer sydd yn

- manteisio ar lefydd ym Meithrinfa Deri View dros y 10 mlynedd ddiwethaf, a hynny o'i gymharu gyda'r cynnydd sydd wedi ei weld mewn canolfannau nas cynhelir yn ardal Y Fenni, a'r dybiaeth yw bod hyn i'w briodoli i'r diffyg hyblygrwydd. Y brif anfantais arall yw gyda chanolfan a gynhelir yw nad oes angen i staff i gael cymhwyster mewn datblygiad plentyn, a dros y blynyddoedd newydd, mae nifer cynyddol o blant wedi dechrau meithrinfeydd gydag oedi datblygiadol a bylchau sylweddol yn eu datblygiad.
- 3.26 Mae manteision canolfannau nas cynhelir mewn gwrthgyferbyniad gyda hyn. Mae'r rhain yn medru bod yn hynod hyblyg, gan ganiatáu rhieni i gofrestru ar gyfer sesiynau sydd yn diwallu eu hanghenion; mae plant yn medru mwynhau sesiynau hwy a chyfuniad o sesiynau yn y bore a'r prynhawn os oes angen. Rhaid i ganolfannau nas cynhelir o gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, ac felly, mae teuluoedd cymwys sydd yn gweithio yn medru cael mynediad at 30 awr o ofal plant yr wythnos sydd wedi eu hariannu drwy gyfrwng y Cynnig Gofal Plant yn yr un ganolfan, gan leihau'r angen iddynt symud o'r naill ganolfan i ganolfan arall yn ystod yr un diwrnod. Mae staff mewn canolfannau nas cynhelir angen meddu ar gymhwyster gofal plant, sydd yn ffocysu'n benodol ar ddatblygiad plentyn. Maent hefyd yn meddu ar gymhareb well o ran staff a phlant gan fod rhaid i ganolfannau gael o leiaf 1 aelod o staff ar gyfer pob 8 plentyn ar gyfer plant rhwng 3 a 4 mlwydd oed, tra bod meithrinfeydd a gynhelir yn tueddu i weithredu ar gymhareb o 1 aelod o staff ar gyfer pob 10 plentyn. Mae canolfannau nas cynhelir yn derbyn cymorth a hyfforddiant gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS), tra bod nifer o'r Cynghorwyr Herio EAS yn arbenigwyr yn y maes blynyddoedd cynnar ac nid oes yna gyfyngiad ar yr hyfforddiant blynyddoedd cynnar sydd ar gael i staff mewn meithrinfeydd a gynhelir.
- 3.27 Ar y llaw arall, mae'r cyllid ar gyfer addysg gynnar ond ar gael am uchafswm o 10 awr yr wythnos a rhaid manteisio ar hyn dros bum sesiwn o 2 awr yr un. Mae rhieni sydd yn gweithio yn medru cael mynediad at y cyllid drwy gyfrwng y Cynnig Gofal Plant a chredydau trethu er mwyn talu am gost y gofal plant cofleidiol os yw'r lle wedi cofrestru ag AGC; fodd bynnag, ar gyfer teuluoedd lle nad yw'r ddau riant yn gweithio, bydd hyn wedi ei gyfyngu i 10 awr yr wythnos ac nid y 12 awr a hanner fel sydd ar gael mewn meithrinfeydd a gynhelir. Bydd yna gyfnod pontio mwy sylweddol ar gyfer plant sydd yn mynychu canolfannau nas cynhelir pan eu bod yn symud i'r Dosbarth Derbyn, er bod yr ysgol yn medru cefnogi hyn os yw'r feithrinfa ar yr un safle gan ganiatáu'r plant i ymuno gyda hwy ar gyfer gwasanaethau a digwyddiadau arbennig fel Diwrnod Chwaraeon ac wrth i staff y Dderbynfa ymweld yn aml gyda'r plant yn y feithrinfa fel eu bod yn gyfarwydd iddynt.
- 3.28 Ni ddylai ansawdd y ddarpariaeth fod yn ddibynnol ynglŷn ag a yw'r ganolfan wedi ei chynnal ai peidio. Yn Sir Fynwy, mae addysg gynnar safon uchel gennym o fewn ein canolfannau a gynhelir a'r rhai nas cynhelir, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod hyn parhau. Mae cymorth ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ALN) ar gael i blant mewn canolfannau a gynhelir a'r rhai nas cynhelir. Rhaid i bob canolfan gynnig Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol ac maent wedi derbyn hyfforddiant am y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd. Rhaid iddynt oll gydymffurfio gyda'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Cod cefnogol, er bod gwahaniaethau ynglŷn â'r ffordd y mae hyn yn cael ei reoli; mewn meithrinfa a gynhelir, yr ysgol sydd yn gyfrifol am hyn ond mewn meithrinfa nas cynhelir, yr Awdurdod Lleol sydd yn gyfrifol am hyn.
- 3.29 Bydd darpariaeth Dechrau'n Deg yn cael ei chynnwys ar y safle newydd a'r bwriad yw creu canolfan sydd yn cynnig 20 o lefydd ac sydd yn cynnig sesiynau yn y bore a'r prynhawn ac felly bydd 40 o lefydd ar gael. Yn hanesyddol, mae'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg wedi ei chynnig gan ganolfannau nas cynhelir yn Y Fenni ac felly, ymddengys y bydd hyn yn digwydd eto ar y safle newydd. Bydd yn ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn cael ei chynnig o'r Ganolfan Acorn ar y safle Deri View presennol, ac felly, efallai na fydd teuluoedd sydd yn byw i fyny'r bryn o'r safle, na sydd yn meddu ar blant oed ysgol, yn ffafrio'r opsiwn yma. Bydd Cylch Meithrin Y Fenni yn parhau i gynnig gofal plant Dechrau'n Deg drwy gyfrwng y Gymraeg.

- 3.30 Mae yna ddarpariaeth ar gyfer gofal plant cofleidiol ar y safle newydd ynghyd â'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg ond nid oes yna benderfyniad eto ar sut y bydd hyn yn cael ei reoli. Os mai'r penderfyniad yw sefydlu meithrinfa a gynhelir, bydd Dechrau'n Deg a'r gofal plant cofleidiol yn medru cael eu rheoli gan un darparwr nas cynhelir. Byddai hyn yn caniatáu rhieni sy'n gweithio i gael mynediad at addysg gynnar a gofal plant cofleidiol ar yr un safle. Byddai hefyd yn golygu bod unrhyw blant Dechrau'n Deg sydd angen oriau ychwanegol yn medru cael mynediad at hyn ar yr un safle, gan leihau'r pontio sydd angen i blant ei wneud.

Y rhesymeg strategol dros ysgol pob oed

- 3.31 Cwestiynwyd y rhesymeg strategol dros sefydlu ysgol pob oed newydd mewn sawl digwyddiad ymgynghori ac yn yr ymatebion ysgrifenedig. Roedd ymgynghoreion wedi cwestiynu pam fod Ysgol Gynradd Deri View wedi ei dewis a beth fyddai buddion model ysgol pob oed [mae hyn wedi ei esbonio ym mharagraffau 3.11-3.15]. Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn gwyntyllu'r rhesymeg yma ymhellach, gan ganolbwyntio ar bedwar maes: dysgu, addysgu, arweinyddiaeth a llesiant. Mae'r pedwar maes yma wedi eu nodi gan Estyn (ymgynghorai statudol) fel meysydd sydd angen eu datblygu'n ymhellach.

Effaith ar Addysgu

- 3.32 Bydd cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn rhoi'r cyfle i ysgolion i gael mwy o ryddid ar ystod eang o elfennau gwahanol o ran eu darpariaeth addysgu, a hynny mewn nifer o ffyrdd. Bydd hyn yn dylanwadu sut y mae ysgolion yn trefnu yn y dyfodol, a bydd ysgolion pob oed o bosib yn cael mwy o hyblygrwydd i ddefnyddio arbenigedd a phrofiad eu staff ar draws yr ystod oedran ehangach. Mae hyn yn gosod ysgolion pob oed mewn sefyllfa fanteisiol wrth feddwl am benderfynu a rheoli beth a sut i addysgu plant, a'n rhoi'r cyfle i weithio ag ystod ehangach o gydweithwyr a fydd yn helpu'r holl athrawon i ddatblygu eu practis.

Dysgu

- 3.33 Bydd dileu'r cyfnodau a'r cyfnodau allweddol yn rhoi mwy o ryddid i athrawon i ddiwallu anghenion unigol y dysgwyr, heb orfod poeni am eu hoedran neu ble maent ar y continwwm dysgu. Mae hyn yn golygu y bydd ysgolion ac athrawon yn cael mwy o ryddid i wneud penderfyniadau am yr hyn sydd yn cael ei ddysgu a sut y mae'n cael ei ddarparu fel bod dysgu yn berthnasol ac yn ymgysylltu dysgwyr. Ni fydd y gwahaniaeth rhwng yr hyn sydd yn digwydd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn bodoli mwyach yn yr un ffordd a dylai unrhyw bontio fod yn ddidrafferth i'r ysgol. Bydd gweithlu sengl mewn ysgol pob oed yn medru myfyrio a datblygu arferion dysgu safon uchel parhaus ar gyfer y disgyblion ieuengaf a hynaf, a hynny o'i gymharu gyda grŵp llai o athrawon sydd yn ffocysu ar un cyfnod.
- 3.34 Mae ysgolion pob oed hefyd yn medru darparu ystod eang o ofodau corfforol ar gyfer dysgu ac addysgu, ac ystod well o ofodau, adnoddau a deunyddiau arbenigol, sydd yn medru cael eu defnyddio gan ystod o ddysgwyr ar draws grŵp oedran ehangach yn hytrach nag mewn un cyfnod. Mae hyn yn cynnwys teclynnau digidol, gwybodaeth a thechnoleg dysgu, sydd yn anodd eu fforddio, eu cynnal a'u hadnewyddu mewn ysgolion un cyfnod.

Arweinyddiaeth

- 3.35 Mae yna fanteision eglur o ran ysgolion pob oed pan yn datblygu ac yn darparu cwricwlwm newydd, yn cefnogi dysgwyr a'n darparu amgylchoedd dysgu effeithiol. Mae'r newidiadau yma yn hawdd eu rheoli mewn ysgolion pob oed gan fod mwy o gapasiti gan y gweithlu a'r hyblygrwydd i chwarae rôl fel rhan o'r gymuned ddysgu broffesiynol ehangach o'i gymharu gyda modelau llai, un cyfnod. Mae yna fwy o gyfleoedd i staff i

ymgymryd â dyletswyddau arwain a chyfrifoldebau sydd yn cefnogi eu datblygiadau gyrfaoi a'n sicrhau arweinwyr ysgol safon uchel y dyfodol.

Effaith ar Lesiant

- 3.36 Mae darparu cwricwlwm hyblyg, sy'n ymgysylltu, yn cynnig dilyniant ac yn cael ei ddarparu mewn amgylchedd ddysgu safon uchel gyda gofodau ac adnoddau arbenigol er mwyn diwallu anghenion ein dysgwyr, yn mynd i gael effaith bositif ar lesiant. Bydd model ysgol pob oed yn meddu ar fwy o gapasiti i ddarparu'r holl bethau yma ar gyfer mwy o ddysgwyr ar draws ystod oedran ehangach o'i gymharu gyda ysgol cyfnod sengl.

Enw'r ysgol newydd a'r cysylltiadau gyda Brenin Harri'r VIII

- 3.37 Mae enw Ysgol Gyfun Harri'r VIII wedi bodoli ers sefydlu'r ysgol yn 1542. Un o'r negeseuon eglur a glywsom yn ystod y digwyddiad ymgynghori oedd bod enw'r ysgol yn bwysig iawn o fewn y gymuned ac i'r gymuned.
- 3.38 Pan yn sefydlu ysgol newydd, mae yna gysylltiadau yn Sir Fynwy bod enw'r ysgol yn cael ei bennu gan Gyngor Sir Fynwy. Mae enw'r ysgol yn cael ei sefydlu drwy gyfrwng offeryn cyfreithiol; *Letters Patent*. O ganlyniad, efallai bod yn rhaid trafod unrhyw newidiadau i enw'r ysgol yn gyda Swyddfa'r Goron a fyddai wedyn yn gofyn am ganiatâd gan Ei Mawrhydi'r Frenhines. Mae'r elfen hon a'r ystyriaeth yn ymwneud ag enw'r ysgol, ac nid y sefydliad ei hun.

Y trefniadau pontio rhwng yr ysgolion clwstwr a'r boblogaeth Anghenion Addysg Arbennig

- 3.39 Yn ystod rhan o'r ymgynghoriad cymunedol, roedd rhieni plant sydd yn mynychu ysgolion cynradd eraill yn Y Fenni wedi codi pryderon ynglŷn â sut y byddai eu plant yn integreiddio i mewn i'r ysgol ym mlwyddyn 7 gan y byddai llawer o blant wedi bod yn yr ysgol ers dosbarth derbyn.
- 3.40 Mae yna berthynas hynod gryf rhwng Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII a'r clwstwr o ysgolion cynradd yn Y Fenni. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r berthynas yma wedi datblygu a nawr yn cynnwys rhannu arferion addysgu a dysgu. Yn benodol, mae'r cysylltiadau o ran rhifedd a llafaredd ymhlith y practis gorau yn y sector
- 3.41 Mae'r ysgolion wedi dechrau cysoni eu cynllunio ar gyfer y cwricwlwm a bydd cysoni'r dysgu hwn drwy flynyddoedd 5-8 yn adlewyrchu'r 'cyfnod canolraddol' sydd yn cael ei gynnig ar gyfer yr ysgol newydd.
- 3.42 Bydd datblygu ysgol pob oed yn arwain at gryfhau'r berthynas rhwng yr ysgolion clwstwr. Rydym yn credu y bydd y cynllunio agos yma a'r ffaith fod yr ysgol uwchradd yn cael gweld practis yr ysgol gynradd, yn elwa'r holl ddysgwyr yn yr ardal.

4. GWERTHUSIAD CYDRADDODLEB A CHENEDLAETHAU'R DYFODOL (GAN GYNNWS CYFIAWNDER CYDMEITHASOL, DIOGELU A RHIANTA CORFFORAETHOL):

- 4.1 Un o brif fanteision y cynnig yn ei ffurf bresennol yw aiddatblygu ysgol na sydd yn addas i'r diben mwyach a bydd yn caniatáu plant i gael mynediad at gwricwlwm newydd mewn llety addas. Mae cynnwys y cynnig 3-19 yn meddu ar y potensial i elwa'r disgyblion a'r myfyrwyr sydd yn derbyn prydau ysgol am ddim a grwpiau bregus eraill.
- 4.2 Mantais arall o ran y cynnig yn ei ffurf bresennol yw ymroddiad y Cyngor at ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg. Os ydym yn bwrw ymlaen gyda'r cynnig, bydd Ysgol Gynradd Deri View yn gadael ei safle presennol ac Ysgol Gymraeg Y Fenni yn symud i'r safle er

mwyn ei galluogi i dyfu ac mae hyn yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru i sicrhau un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

- 4.3 Bydd y cynnig yn elwa plant sydd ag anghenion niwroddatblygol a dysgu cymhleth drwy leihau'r angen i deithio o ganolfannau arbenigol arall ac yn eu caniatáu hwy i barhau yn eu hysgol a'u cymunedau lleol.
- 4.4 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EQIA) wedi ei gynnwys yn Atodiad 1. Mae'r ddogfen yn amlygu mewn inc coch y trafodaethau a'r pryderon ychwanegol sydd wedi eu nodi yn ystod y broses ymgynghori.

5. GWERTHUSIAD O'R OPSIYNAU

- 5.1 Mae'r Cod diwygiedig yn amlinellu'r gofyniad canlynol.
- 'Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, pan fydd y cynigydd yn adolygu'r cynnig cyn ei gyhoeddi, bydd yn ofynnol i'r cynigydd gynnal asesiad pellach o'r cynnig ac o bob un o'r opsiynau eraill a nodwyd yn y papur cynnig. Bydd hyn yn cwmpasu'r un materion â'r rheini yr oedd yn ofynnol i'r cynigydd eu hasesu wrth lunio'r cynnig:*
- a) yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg*
 - b) yr effaith debygol ar y gymuned*
 - c) yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio.*

Diben yr asesiad pellach hwn yw ystyried unrhyw wybodaeth bellach a ddaeth i law yn sgil yr ymgynghoriad neu fel arall. Yn ei adroddiad ymgynghori, bydd gofyn i'r cynigydd esbonio ei asesiad o'r cynnig a'r opsiynau rhesymol eraill a nodwyd, sut mae'r asesiad hwn yn wahanol i'w asesiad cynharach (os o gwbl) a'i asesiad o unrhyw opsiynau rhesymol pellach. Yn olaf, bydd gofyn i'r cynigydd gadarnhau a yw o'r farn mai gweithredu'r cynnig (yn llawn neu'n rhannol) yw'r ymateb mwyaf priodol i'r rhesymau a nodwyd dros y cynnig a rhoi rhesymau dros ei gasgliad.'

- 5.2 Mae Tabl 3 yn amlinellu'r dadansoddiad o'r meysydd penodol yma yn dilyn yr ymgynghoriad.

Tabl 3.

	Effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg	Yr effaith debygol ar y gymuned	Yr effaith debygol ar drefniadau teithio gwahanol
1. Gwneud dim a pharhau gyda'r status quo – dwy ysgol annibynnol ar un safle	<p>Negatif</p> <ul style="list-style-type: none"> Ni fydd cyfleusterau yn yr ysgol uwchradd yn addas ar gyfer addysgu'r cwricwlwm newydd yn effeithiol Byddai darpariaeth chweched dosbarth dal wedi ei gyfyngu ac yn medru arwain at bobl ifanc yn dewis darpariaeth ôl-16 y tu allan i'r sir Byddai cyfleoedd cyfyngedig o ran datblygu continwwm effeithiol o ddysgu rhwng 3 a 19. 	<p>Cytbwys</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae yna botensial fod hyn yn cael effaith negatif ar y gymuned o siaradwyr Cymraeg gan na fydd y datrysiad yma yn caniatáu addysg Gymraeg i ehangu. Mae rhai rhannau o'r gymuned wedi mynegi gwerth lleoliad Ysgol Deri View. Mae ein dadansoddiad wedi dangos nad yw hyn yn gywir⁸ 	<p>Positif</p> <ul style="list-style-type: none"> Bydd y trefniadau teithio ar gyfer pobl ifanc yn parhau'n ddigyfnewid <p>Negatif</p> <ul style="list-style-type: none"> I blant ag ADY, byddai'r ddarpariaeth arbenigol heb ei sefydlu sydd yn golygu y byddai'r status quo yn parhau h.y. bydd yna ofyniad ar rai pobl ifanc gael mynediad at ddarpariaeth y tu hwnt i'r gymuned.
2. Sefydlu ysgol pob oed gyda darpariaeth ADY ar safle Ysgol Brenin Harri'r VIII a chau Ysgolion Brenin Harri'r VIII a Deri View	<p>Positif</p> <ul style="list-style-type: none"> Ystod eang o ofodau corfforol, adnoddau gwell a chapasiti digidol gwell i gefnogi dysgu effeithiol nawr ac yn y dyfodol. Byddai gweithlu sengl mewn ysgol pob oed yn medru adlewyrchu a datblygu dysgu safon uchel parhaus ar gyfer y disgyblion iau a'r rhai hynaf. Mynediad ar y safle at wasanaethau arbenigol fel Dechrau'n Deg. Mwy o gyfleoedd i'r gymuned i ddefnyddio'r cyfleusterau. 	<p>Positif</p> <ul style="list-style-type: none"> Capasiti ychwanegol o ran Dechrau'n Deg Potensial am Ofal Plant Cyfleusterau gwell ar gyfer y gymuned Buddion Cymunedol <p>Negatif</p> <ul style="list-style-type: none"> Mynegwyd pryderon y byddai symud yr ysgol a'r ddarpariaeth yn creu heriau o 	<p>Positif</p> <ul style="list-style-type: none"> Bydd y rhan fwyaf o bobl sydd yn mynychu Ysgol Gynradd Deri View yn gorfod teithio llai o bellter. Bydd y ddarpariaeth ADY yn caniatáu mwy o bobl i dderbyn cymorth holistaidd o fewn eu cymunedau gan leihau'r angen i deithio i ddarpariaeth arbenigol arall,

	<p>Negatif</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dim darpariaeth uwchradd ar gyfer dysgwyr Cymraeg • Mynegwyd pryderon am natur arbenigol cymuned Deri View 	<p>ran ymgysylltu rhieni.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Teimlwyd fod y gymuned ac yn cael ei thrin yn annheg gan ei bod yn rhan o broses o gyfuno'r ysgol ag agoriad Deri View. 	<p>sydd y tu hwnt i'r sir.</p> <p>Negatif</p> <ul style="list-style-type: none"> • Myfyrwyr CA3 a 4 yn parhau i fynd i Ysgol Gyfun Gwynllyw
<p>3. Sefydlu ysgol pob oed gyda darpariaeth ADY a ffrwd Cymraeg ar gyfer cyfnodau allweddol 3,4 a 5 ar safle Ysgol Brenin Harri'r VIII a chauYsgolion Brenin Harri'r VIII a Deri View</p>	<p>Positif</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystod eang o ofodau corfforol a chapasiti digidol gwell er mwyn cefnogi dysgu effeithiol nawr ac yn y dyfodol. • Byddai gweithlu sengl mewn ysgol pob oed yn medru adlewyrchu a datblygu dysgu safon uchel parhaus ar gyfer y disgyblion iau a'r rhai hynaf. • Mynediad ar y safle at wasanaethau arbenigol fel Dechrau'n Deg • Mwy o gyfleoedd i'r gymuned ddefnyddio'r cyfleusterau. <p>Negatif</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ni fyddai'r ffrwd cyfrwng Cymraeg yn medru darparu profiad ymdrochi addas ar gyfer dysgwyr Cymraeg. • Mynegwyd pryderon am natur arbenigol cymuned Deri View 	<p>Positif</p> <ul style="list-style-type: none"> • Capasiti ychwanegol o ran Dechrau'n Deg • Potensial am Ofal Plant • Cyfleusterau gwell ar gyfer y gymuned • Buddion Cymunedol <p>Negatif</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mynegwyd pryderon y byddai symud yr ysgol a'r ddarpariaeth yn creu heriau o ran ymgysylltu rhieni. • Teimlwyd fod y gymuned yn cael ei thrin yn annheg gan ei bod yn rhan o broses o gyfuno'r ysgol ag agoriad Deri View. 	<p>Positif</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd y rhan fwyaf o bobl sydd yn mynychu Ysgol Gynradd Deri View yn gorfod teithio llai o bellter. • Bydd y ddarpariaeth ADY yn caniatáu mwy o bobl i dderbyn cymorth hollataidd o fewn eu cymunedau gan leihau'r angen i deithio i ddarpariaeth arbenigol arall, y tu hwnt i'r sir. • Byddai dysgwyr cyfrwng Cymraeg sydd yn dewis bod yn rhan o'r ffrwd yn arwain at ostyngiad mewn amseroedd teithio.
<p>4. Ehangu ystod oedran Brenin</p>	<p>Positif</p>	<p>Positif</p>	<p>Positif</p>

<p>Harri'r VIII ac ymgorffori Ysgol Deri View</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ystod eang o ofodau corfforol a chapasiti digidol gwell er mwyn cefnogi dysgu effeithiol nawr ac yn y dyfodol. • Byddai gweithlu sengl mewn ysgol pob oed yn medru adlewyrchu a datblygu dysgu safon uchel parhaus ar gyfer y disgyblion iau a'r rhai hynaf. • Mynediad ar y safle at wasanaethau arbenigol fel Dechrau'n Deg • Mwy o gyfleoedd i'r gymuned ddefnyddio'r cyfleusterau. <p>Negatif</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ni fyddai'r ffrwd cyfrwng Cymraeg yn medru darparu profiad ymdrochi addas ar gyfer dysgwyr Cymraeg. • Pryderon fod cymuned Ysgol Deri View yn cael ei llyncu gan yr ysgol uwchradd ac yn colli ei natur unigryw. 	<ul style="list-style-type: none"> • Capasiti ychwanegol o ran Dechrau'n Deg • Potensial am Ofal Plant • Cyfleusterau gwell ar gyfer y gymuned • Buddion Cymunedol <p>Negatif –</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mynegwyd pryderon y byddai symud yr ysgol a'r ddarpariaeth yn creu heriau o ran ymgysylltu rhieni. • Teimlwyd fod y gymuned yn cael ei thrin yn annheg gan ei bod yn rhan o broses o gyfuno'r ysgol ag agoriad Deri View. • Efallai y byddai hyn yn cael ei ddehongli fel yr ysgol arall yn meddiannu Ysgol Deri View. 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y rhan fwyaf o bobl sydd yn mynychu Ysgol Gynradd Deri View yn gorfod teithio llai o bellter. • Bydd y ddarpariaeth ADY yn caniatáu mwy o bobl i dderbyn cymorth holistaidd o fewn eu cymunedau gan leihau'r angen i deithio i ddarpariaeth arbenigol arall, y tu hwnt i'r sir.
<p>5. Ehangu ystod oedran Brenin Harri'r VIII ac ymgorffori Ysgol Deri View</p>	<p>Positif</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystod eang o ofodau corfforol a chapasiti digidol gwell er mwyn cefnogi dysgu effeithiol nawr ac yn y dyfodol. • Byddai gweithlu sengl mewn ysgol pob oed yn medru adlewyrchu a datblygu dysgu safon uchel parhaus 	<p>Positif</p> <ul style="list-style-type: none"> • Capasiti ychwanegol o ran Dechrau'n Deg • Potensial am Ofal Plant • Cyfleusterau gwell ar gyfer y gymuned • Buddion Cymunedol 	<p>Positif</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd y rhan fwyaf o bobl sydd yn mynychu Ysgol Gynradd Deri View yn gorfod teithio llai o bellter. • Bydd y ddarpariaeth ADY yn caniatáu mwy

	<p>ar gyfer y disgyblion iau a'r rhai hynaf.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mynediad ar y safle at wasanaethau arbenigol fe Dechrau'n Deg • Mwy o gyfleoedd i'r gymuned ddefnyddio'r cyfleusterau. <p>Negatif</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ni fyddai'r ffrwd cyfrwng Cymraeg yn medru darparu profiad ymdrochi addas ar gyfer dysgwyr Cymraeg. • Pryderon y byddai Ysgol Brenin Harri'r VIII yn colli ei henw a'i statws fel....ymddiriedolaeth 	<p>Negatif</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mynegwyd pryderon y byddai symud yr ysgol a'r ddarpariaeth yn creu heriau o ran ymgysylltu rhieni. • Teimlwyd fod y gymuned yn cael ei thrin yn annheg gan ei bod yn rhan o broses o gyfuno'r ysgol ag agoriad Deri View. 	<p>o bobl i dderbyn cymorth holistaidd o fewn eu cymunedau gan leihau'r angen i deithio i ddarpariaeth arbenigol arall, y tu hwnt i'r sir.</p>
--	--	--	--

- 5.3 Mae'r cod statudol yn cynnig ystod o opsiynau posib o ran y camau nesaf ar y pwynt hwn:
- a) cyhoeddi'r cynigion a fu'n rhan o ymgynghoriad;
 - b) cyhoeddi'r cynigion ag unrhyw addasiadau priodol;
 - c) anghofio am y cynigion a chadw'r status quo; neu
 - d) gwneud addasiadau sylweddol i'r cynigion ac ail-ymgynghori.
- 5.4 Wedi rhoi ystyriaeth sylweddol i'r cydbwysedd rhwng teimladau'r cyhoedd ac amcanion y polisi a amlinellwyd ar ddechrau'r ymgynghoriad, rydym wedi pennu y byddwn yn parhau gyda'r rhaglen i greu ysgol pob oed yn Y Fenni. Fodd bynnag, rydym wedi ystyried prif thema'r adborth o ran statws y feithrinfa ac wedi dod i'r casgliad y byddwn yn dilyn opsiwn b fel sydd wedi ei nodi uchod.
- 5.5 Byddwn yn diwygio ein cynnig er mwyn creu ysgol pob oed yn Y Fenni; fodd bynnag, bydd yr ystod oedran yn 3-19 ac yn cynnwys meithrinfa.

6. RHESYMAU:

- 6.1 Mae'r prosiect i sefydlu ysgol pob oed newydd yn Y Fenni ymhlith un o'r prosiectau cyfalaf mwyaf pwysig y mae Cyngor Sir Fynwy erioed wedi ei gomisiynu. Yn sgil y rheswm yma yn unig, mae'n hanfodol ein bod yn ystyried y negeseuon sydd wedi dod o'r broses ymgynghori. Mae'r papur sydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 6^{ed} Hydref yn eglur bod yna heriau wedi dod i'r amlwg yn ystod yr ymgynghoriad a bod rhaid i ni roi amser ac ystyriaeth i'r materion sydd wedi eu codi.
- 6.2 Yr elfen sydd yn peri'r pryder mwyaf yw'r ddarpariaeth addysg feithrin. Y rhesymeg wreiddiol o ran yr ymgynghoriad oedd profi buddion canolfan nas cynhelir. Daeth yn eglur iawn yn ystod yr ymgynghoriad nad oedd y rhan fwyaf o'r gymuned yn cefnogi hyn. Mae'n bwysig nodi fod dau Gorff Llywodraethu'r ysgolion wedi gwrthwynebu'r cynnig hwn. Mae esboniad mwy manwl o'r rhesymeg ar gael ym mharagraffau 3.18 - 3.27.
- 6.3 Yn sgil lefel y gwrthwynebiad a drwy ail-ddiwygio'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg ar y safle newydd, rydym wedi penderfynu gweithredu cynnig amgen sydd yn golygu y bydd yr ysgol yn ysgol pob oed 3-19 gyda'r addysg feithrin yn ddarpariaeth a gynhelir.

7. GOBLYGIADAU ADNODDAU :

- 7.1 Mae cyfanswm y buddsoddiad cyfalaf sydd angen ar gyfer sefydlu Ysgol Pob Oed yn golygu gwario £50.2m yn ardal Y Fenni, Mae'r cynnig yn rhan o Raglen Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a bydd 65% o'r rhaglen yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a 35% gan y Cyngor. Bydd hwn yn cael ei drafod mewn adroddiad arall i'r Cyngor maes o law.
- 8.3 Byddai'r gyllideb refeniw ar gyfer ysgol Pob Oed yn cael ei hadeiladu yn unol gyda'r fformiwla bresennol ar gyfer ariannu ysgolion gan sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu'n gydradd, yn seiliedig ar ofynion y disgyblion.
- 8.4 Byddai'r ysgol pob oed hefyd yn medru elwa o arbedion maint ac osgoi'r angen i dalu am bethau mwy nag unwaith.
- 8.5 Nid oes goblygiadau refeniw ariannol uniongyrchol yn gysylltiedig gyda'r adroddiad hwn gan fod y broses ymgynghori yn rhan o raglen waith bresennol y swyddogion o fewn y Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc.

8. YMGYNGOREION:

Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc

- 8.1 Roedd Cadeirydd y Pwyllgor wedi crynhoi'r ddadl sydd wedi ei chynnal yn dilyn y cyflwyniad gan y Prif swyddog gan ddweud:

'Ar y cyfan, mae'r pwyllgor o blaid y datblygiad. Mae adeilad Brenin Harri wedi bod mewn cyflwr truenus am gryn dipyn ac nid yw'n addas i'r diben. Mae'r ysgol yn ddarparwr sylweddol, yn gwasanaethu ardal fawr. Mae'n bwysig fod pobl sydd yn byw yn Sir Fynwy yn medru danfon eu plant drwy'r ysgolion sydd oll wedi eu lleoli yn y sir, os yn bosib. Mae yna bryderon am Deri View yn symud, ac rydym yn gwerthfawrogi hyn. Mae'n un o'r ardaloedd heriol yn y dref, ac yn yr awdurdod, o ran lefelau amddifadedd, darpariaeth prydau ysgol am ddim ayyb. Mae angen cryn dipyn o ofal felly wrth i ni drosglwyddo'r ysgol honno - mae symud yn medru bod yn drawmatig i blant a hyd yn oed i'r staff, ynghyd â rhieni.

Y prif beth i'w nodi yw'r gwrthwynebiad at ganolfan nas cynhelir ar gyfer plant ifanc sy'n 3 mlwydd oed, yn enwedig gan fod hon yn ardal o amddifadedd uchel – mae gofal plant mewn teuluoedd sydd ag adnoddau yn gostus ond yn fforddiadwy, ond mae hyn yn fwy o broblem ymhlith teuluoedd incwm isel. Ni fyddem yn argymhell ein bod yn mynd yn ôl i ymgynghori gan y bydd hyn yn oedi'r broses eto. Gan ein bod nawr yn symud at wneud penderfyniad, fel awdurdod, ac os oes modd ailystyried y ddarpariaeth addysg feithrin, yna nid oes gwrthwynebiad gan y pwyllgor hwn – mae'r adborth fel arall wedi bod yn bositif.

- 8.2 Ymgynghoreion pellach:

PPI DMT

UDRh

Aelod Gweithredol ar gyfer Addysg

Cabinet

9. PAPUR CEFNDIR:

- 9.1 Hydref 2017 – Diwygiadau i Raglen Amlinelliad Strategol Sir Fynwy, Papur Cabinet

- 9.2 Ebrill 2021 – Caniatâd ar Ymgynghori, Papur Cabinet

- 9.3 Medi 2021 – Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc, Themâu i'w hystyried

- 9.4 Cod Safanau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

10. AWDUR:

Will McLean

Prif Swyddog, Plant a Phobl Ifanc

11. MANYLION CYSWLLT:

Ffôn: 07834435934

E-bost: willmclean@monmouthshire.gov.uk



monmouthshire
sir fynwy

Gwerthusiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol

<p>Enw'r Swyddog sydd yn cwblhau'r gwerthusiad Will McLean</p> <p>Rhif ffon: 07834 435934 E-bost: willmclean@monmouthshire.gov.uk</p>	<p>Rhowch ddisgrifiad cryno o amcanion y cynnig</p> <p>Sefydlu Ysgol Pob Oed (3-19) yn Y Fenni a rhoi'r gorau i gynnal Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII ac Ysgol Gynradd Deri View.</p>
<p>Enw'r Maes Gwasanaeth</p> <p>Cyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc, Ysgolion yr 21ain Ganrif</p>	<p>Dyddiad Medi 2021</p>

1. A yw eich cynigion yn mynd i effeithio ar unrhyw bobl neu grwpiau o bobl sydd yn meddu ar nodweddion gwarchoddedig? Isod, esboniwch yr effaith, y dystiolaeth yr ydych wedi defnyddio ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd.

<p>Nodweddion Gwarchoddedig</p>	<p>Disgrifiwch unrhyw effeithiau positif y bydd eich cynnig yn ei gael ar y nodwedd warchoddedig</p>	<p>Disgrifiwch unrhyw effeithiau negatif y bydd eich cynnig yn ei gael ar y nodwedd warchoddedig</p>	<p>Beth sydd wedi ei wneud/yn mynd i gael ei wneud er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negatif neu gyfrannu'n well at yr effeithiau positif?</p>
<p>Oedran</p>	<p>Mae datblygu ysgol newydd pob oed ar safle Brenin Harri'r VIII yn meddu ar y potensial i wneud camau sylweddol o ran darpariaeth addysg ar darws y dref. Mae'r rhain yn cynnwys: datblygu ethos gyffredin a gwerthoedd a rennir ar darws yr ysgol; cydlynu'r broses o gynllunio ar gyfer y cwricwlwm er mwyn gwella cydlyniaeth a pharad o ran dysgu'r disgyblion; datblygu sgiliau blaengar a ffocysu ar adeiladu cymwyseddau disgyblion; mwy o gysondeb o ran dulliau dysgu ac addysgu; cyfle i ddysgu ar draws oedrannau gwahanol a mwy o gyfle i ymgyfoethogi a manteisio ar weithgareddau yn y gymuned; ehangu'r gofal a'r cymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r ddarpariaeth i grwpiau bregus eraill; mynediad gwell i ddisgyblion sydd angen llety, cyfleusterau ac adnoddau dysgu; datblygu perthnasau a rhannu arbenigedd rhwng staff ysgolion cynradd ac uwchradd; rheoli a gweithredu systemau ar y cyd ar gyfer cofnodi a thracio cynnydd disgyblion; cyfuno llywodraethiant a'r defnydd effeithlon o adnoddau ariannol a dynol; cryfhau cysylltiadau gyda rhieni a'r gymuned leol</p>	<p>Dylai'r ysgol newydd fod ar gael i blant sydd yn dechrau eu gyrfaoedd ysgol (y plant sydd yn trosglwyddo o Deri View) a'r rhai hynny sydd yn mynychu o ddechrau eu hoedran uwchradd.</p> <p>Mae yna risg y byddai rhai plant sydd yn profi ymatebion yn seiliedig ar emosiynau i fynychu ysgol yn gorfod mynychu'r un ysgol am gyfnod o amser.</p> <p>Efallai y bydd y disgyblion sydd yn mynychu'r ysgolion cynradd sy'n bwydo yn teimlo eu bod o dan anfantais gan y byddant yn llai cyfarwydd gyda'r ysgol pan eu bod yn symud ar ddiwedd blwyddyn 6 a gallai hyn effeithio ar y cynnydd y maent yn ei wneud.</p>	<p>Dylai'r ddarpariaeth a'r cymorth gwell a gynigir, a sicrhau bod y gymuned yn rhan o ysgolion newydd, ganiatáu profiad positif i'r holl ddysgwyr. Yn ogystal â hyn a thra'n cydnabod y lefelau cyfredol o ddarpariaeth, bydd yna broses helaeth o reoli newydd er mwyn cefnogi'r dasg o integreiddio'r ddwy ysgol.</p> <p>Mae yna gynllun pontio eisoes yn bodoli gyda'r holl ysgolion cynradd sy'n bwydo. Bydd hyn yn datblygu ac yn cryfhau wrth i ni symud ymlaen gan sicrhau bod disgyblion o ysgolion clwstwr eraill yn cael mynediad at yr un cyfleusterau â'r plant yn yr ysgol 3-19, ac felly, ni fyddant o dan anfantais.</p> <p>Bydd staff o fewn y clwstwr yn cael mwy o gyfle i rannu'r broses o gynllunio'r cwricwlwm er mwyn sicrhau parhad o ran dysgu'r disgyblion.</p>

Atodiad 1

Nodweddion Gwarchoddedig	Disgrifiwch unrhyw effeithiau positif y bydd eich cynnig yn ei gael ar y nodwedd warchoddedig	Disgrifiwch unrhyw effeithiau negatif y bydd eich cynnig yn ei gael ar y nodwedd warchoddedig	Beth sydd wedi ei wneud/yn mynd i gael ei wneud er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negatif neu gyfrannu'n well at yr effeithiau positif?
Anabledd	Bydd canolfan ar gyfer Dysgwyr ag anghenion Niwroddatblygol Cymhleth yn cael ei sefydlu ar gyfer disgyblion rhwng 4 a 19. Bydd unrhyw ddatblygiadau yn sicrhau bod yr ystâd yn cydymffurfio gyda gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd ac yn caniatáu unrhyw blant ag anabledd neu / anghenion dysgu ychwanegol i gael eu haddysgu'n effeithiol fel rhan o'r brif ffrwd. Bydd hyn yn caniatáu plant i gael eu dysgu o fewn eu cymuned.	Dim effaith	Rydym yn credu y bydd hyn yn welliant sylweddol ar y ddarpariaeth bresennol i blant ag anghenion niwroddatblygol cymhleth.
Ailbennu Rhywedd	Dim effaith	Dim effaith	Dim effaith
Priodas neu Bartneriaeth Sifil	Dim effaith	Dim effaith	Dim effaith
Beichiogrwydd neu famolaeth	Dim effaith	Dim effaith	Dim effaith
Hil	Dim effaith	Dim effaith	Dim effaith
Crefydd neu gred	Dim effaith	Dim effaith	Dim effaith

Atodiad 1

Nodweddion Gwarchodedig	Disgrifiwch unrhyw effeithiau positif y bydd eich cynnig yn ei gael ar y nodwedd warchodedig	Disgrifiwch unrhyw effeithiau negatif y bydd eich cynnig yn ei gael ar y nodwedd warchodedig	Beth sydd wedi ei wneud/yn mynd i gael ei wneud er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negatif neu gyfrannu'n well at yr effeithiau positif?
Rhyw	Bydd y cyfleuster yn gydaddysgol ac yn cynnwys bechgyn a merched	Dim effaith	Dim effaith
Cyfeiriadedd rhywiol	Dim effaith	Dim effaith	Dim effaith

2. Dyletswydd Sosio-economaidd a Chyfiawnder Troseddol

Mae'r Ddyletswydd Sosio-Economaidd yn gosod dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus i roi ystyriaeth briodol i leihau anghydraddoldebau o ran y canlyniadau sydd yn deillio o anfantais sosio-economaidd pan yn cymryd penderfyniadau allweddol. Mae'r ddyletswydd hon yn gyson gydag ein hymrwymiad fel awdurdod at Gyfiawnder Troseddol.

	Disgrifiwch unrhyw effeithiau positif y bydd eich cynnig yn ei gael ar y nodwedd warchoddedig	Disgrifiwch unrhyw effeithiau negatif y bydd eich cynnig yn ei gael ar y nodwedd warchoddedig	Beth sydd wedi ei wneud/yn mynd i gael ei wneud er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negatif neu gyfrannu'n well at yr effeithiau positif?
Dyletswydd Sosio - economiadd a Chyfiawnder Troseddol	<p>Mae'r ddwy ysgol sydd yn rhan o'r cynllun yn meddu ar y cyfraddau uchaf o ddisgyblion sydd yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn y sir (ymhlith ysgolion cynradd ac uwchradd). Yr ardal sydd wedi ei nodi yw'r ardal sydd â'r lefelau uchaf o amddifadedd economaidd fel sydd yn cael ei nodi yn yr Asesiad Llesiant. Dylai'r buddsoddiad yn y model ysgolion 3 -19 gael mwy o effaith ar fyfyrwyr sydd yn gymwys am brydau ysgol am ddim drwy eu hadnabod yn gynnar, elwa o ymyrraeth wedi ei thargedu a monitro a thracio parhaus. Roedd hyn yn rhan allweddol o bennu'r prosiect gwreiddiol yn 2017.</p>	<p>Drwy'r ymgynghoriad, roedd lleoliadau yr ysgol newydd wedi ei nodi fel risg posib gan fod yna gysyniad fod aelodau o'r gymuned yn gorfod teithio ymhellach i'r ysgol.</p> <p>Roedd yna bryder y byddai meithrinfa nas cynhelir yn medru cyfyngu ar fynediad ymhlith teuluoedd amddifad.</p>	<p>Mae'r Cyngor wedi ystyried yr effaith ar drefniadau teithio ar gyfer y plant a phobl ifanc sydd ar gofrestr Ysgol Gynradd Deri View, a fyddai angen teithio i ysgol ar safle amgen yn sgil y cynigion. Mae'r asesiad wedi pennu y bydd 71% of o'r plant yn Ysgol Gynradd Deri View yn teithio llai o bellter wrth fynd i'r ysgol arfaethedig newydd. Byddai'r 29% sydd yn weddill yn gorfod teithio ymhellach; fodd bynnag, byddai 40% o'r rhain yn profi effaith o lai na 0.2 milltir. Yr uchafswm o ran teithio ychwanegol ar gyfer unrhyw un o'r plant yw 0.38 milltir.</p> <p>Mae cyllid ar gyfer addysg gynnar ond ar gael ar gyfer uchafswm o 10 awr yr wythnos a rhaid manteisio ar hyn dros gyfnod o 5 sesiwn am 2 awr yr un. Mae rhieni sydd yn gweithio yn medru cael mynediad at gyllid drwy'r Cynnig Gofal Plant a chredydau treth er mwyn talu am ofal plant cofleidiol os yw'r ddarpariaeth wedi cofrestru ag AGC; fodd bynnag, mae teuluoedd lle nad yw'r naill riant na'r llall yn gweithio ond</p>

Atodiad 1

			yn medru cael 10 awr yr wythnos o’u gymharu gyda 12 ½ o oriau mewn canolfannau a gynhelir.
--	--	--	--

3. Llunio Polisiâu a’r Iaith Gymraeg.

Sut y bydd eich cynnig yn effeithio ar yr agweddau canlynol o Safonau Iaith Gymraeg y Cyngor:	Disgrifiwch effeithiau positif y cynnig hwn	Disgrifiwch effeithiau negatif y cynnig hwn	Beth sydd wedi ei wneud/yn mynd i gael ei wneud er mwyn lliniaru unrhyw effaith negatif neu gyfrannu’n well at yr effeithiau positif?
<p>Llunio Polisi Effeithiau ar y defnydd o’r iaith Gymraeg, Hyrwyddo’r iaith Gymraeg Ymatal rhag trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol</p>	<p>Os caiff y cynnig ei gytuno, bydd Ysgol Gynradd Deri View yn gadael y safle presennol. Bydd yr adeilad wedyn yn cael ei ailwampio a’i ailbwrpasu er mwyn caniatáu i Ysgol Gymraeg Y Fenni i adleoli yno a darparu’r llety ychwanegol sydd angen er mwyn mynd i’r afael gyda’r nifer gynyddol o ddisgyblion sydd yn dymuno derbyn addysg iaith Gymraeg yng Ngogledd y Sir. Mae’r Cyngor wedi ychwanegu adeilad ychwanegol yn Ysgol Y Fenni sydd wedi cynyddu capasiti’r ysgol o 257 i 317 o lefydd ar gost o tua £123,000. Mae’r cynnig arfaethedig hwn o symud i safle</p>	<p>Mae yna risg bod datblygu ysgol uwchradd Cyfrwng Saesneg mor agos i’r safle cyfredol ac arfaethedig ar gyfer Ysgol Gymraeg Y Fenni yn mynd i annog rhieni i ystyried darpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg amgen i Ysgol Gyfun Gwynllyw ym Mhont-y-pŵl, a hynny naill ai yn Ysgol Brenin Harri’r VIII neu Ysgol Gyfun Crughywel ym Mhowys.</p>	<p>Byddwn yn gweithio gyda’r Pennaeth a Bwrdd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gymraeg Y Fenni i ystyried y posibilrwydd o ddarparu’r cwricwlwm Cyfnod Allweddol 3 yn y safle newydd. Roedd CSF wedi cynnig cynnwys ffrwd cyfrwng Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3 yn yr Ysgol 3-19 arfaethedig ar gyfer Y Fenni; ond ni ddatblygwyd yr opsiwn yma yn dilyn trafodaeth gyda’r Fforwm</p>

Atodiad 1

	<p>Deri View yn mynd i arwain at fuddsoddiad ychwanegol o £1m ac yn mynd i ganiatáu'r nifer o lefydd i gynyddu i 420 ac yn cynnig mwy o weithgarwch cymunedol sydd yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Rydym yn credu bod y buddsoddiad yn y safle newydd yn mynd i hyrwyddo'r cynnig o addysg Gymraeg yn Y Fenni a'r ardaloedd cyfagos. Mae hyn yn rhan o uchelgais y Cyngor i gefnogi Cymraeg 2050 a'r targed o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg a'r targedau sydd wedi eu gosod yn Strategaeth Iaith Gymraeg 5 Mlynedd y Cyngor 2017 -2021 ac yn ffurfio rhan o'r uchelgais sydd yn cael ei hamlinellu yn y CSCS newydd a'r Strategaeth 5 Mlynedd newydd sydd i'w chyhoeddi yn gynnar y flwyddyn nesaf.</p>		<p>Addysg Gymraeg gan fod disgyblion angen cael eu hymdrochi yn llwyr mewn addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ar ôl cael eu hymdrochi yn llwyr mewn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg. Bydd CSF yn parhau i ddatblygu'r trafodaethau yma ac ymgysylltu gyda Chyngor Sir Powys a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent er mwyn sicrhau bod yna ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ardal gogledd Gwent / de Powys er mwyn lliniaru effaith negyddol y cynnig hwn. Byddwn yn hysbysu Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg y Cyngor o'r hyn sydd yn digwydd ac yn rhan o'r trafodaethau. Bydd y Cyngor yn parhau gyda'r deialog gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen o ran y ddarpariaeth yn Ysgol Gyfun Gwynllyw fel bod darpariaeth addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn parhau yn opsiwn deniadol i ddisgyblion sydd yn dymuno cael eu hymdrochi'n llwyr mewn addysg Gymraeg.</p>
--	--	--	---

<p>Gweithredol Recriwtio a Hyfforddi'r gweithlu</p>	<p>Bydd ehangu Ysgol Gymraeg Y Fenni yn creu'r angen am nifer gynyddol o athrawon Cyfrwng Cymraeg a staff cymorth yn ardal Y Fenni. Bydd hyn yn creu cyfleoedd ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn Sir Fynwy a thu hwnt yr ardal er mwyn medru defnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg yn yr amgylchedd gwaith.</p>	<p>Mae yna risg na fyddwn yn medru sicrhau nifer ddigonol o athrawon / staff sydd yn siarad Cymraeg er mwyn cwrdd â'r gofynion sydd yn rhan o ehangu'r ysgol a'r cyfleusterau ychwanegol o ran anghenion dysgu ychwanegol.</p>	<p>Er mwyn lliniaru'r risg yma, byddwn yn ymgysylltu'n agos gyda'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Cyflawni Addysg a'r sefydliadau addysg uwch lleol er mwyn helpu hwyluso niferoedd uwch o athrawon cyfrwng Cymraeg. Byddwn hefyd yn defnyddio'r holl declynnau recriwtio sydd gennym – cyfryngau cymdeithasol (twitter, facebook, youtube), gwefn y cyngor, safleoedd recriwtio sydd yn benodol ar gyfer yr iaith Gymraeg, LinkedIn ayyb. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg er mwyn ein cynorthwyo yn y broses gan ddefnyddio eu harbenigedd a'u cysylltiadau.</p>
---	--	--	--

<p>Cyflenwi gwasanaethau</p> <p>Y defnydd o'r iaith Gymraeg mewn cyflenwi gwasanaethau</p> <p>Yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith</p>	<p>Os caiff y ddogfen ymgynghori ei gytuno, bydd yn cael ei rhannu ymhlith budd-ddeiliaid yn y Gymraeg a'r Saeseg.</p> <p>Bydd yr holl ohebiaeth a chyfathrebu gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol sydd yn ymwneud gyda'r cynnig yn gwbl ddwyieithog fel sydd angen o dan Fesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011</p>		
--	---	--	--

4. A yw eich cynnig yn cyflawni unrhyw o'r amcanion llesiant sydd wedi eu nodi isod? Esboniwch effaith (positif a negatif) yr ydych yn eu disgwyl, ynghyd ag awgrymiadau ar sut i liniaru'r effeithiau negatif neu gyfrannu yn well at y nod. Nid oes rhaid ysgrifennu rhywbeth ym mhob bwlch os nad yw'n berthnasol!

<p>Nod Llesiant</p>	<p>A yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau positif a negatif</p>	<p>Beth sydd wedi ei wneud/yn mynd i gael ei wneud er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negatif neu gyfrannu'n well at yr effeithiau positif?</p>
<p>Cymru ffyniannus</p> <p>Defnydd effeithiol o adnoddau, pobl sgilgar wedi eu haddysgu, yn creu cyfoeth a swyddi</p>	<p>Bydd mwy o gyfleoedd am swyddi o fewn yr ysgol newydd arfaethedig. Bydd unrhyw amgylchedd adeilad gwell yn caniatáu myfyrwyr i ddatblygu sgiliau sydd yn caniatáu iddynt fod yn barod am waith. Bydd yr ysgol ail-ddatblygedig yn cynnig cyfle i'r ysgol i fod yn fwy cost-effeithiol o ran y costau gweithredol. Byddai'r fath fuddsoddiad sylweddol yn nhref Y Fenni yn rhoi cyfle i ni fanteisio i'r eithaf ar unrhyw gyfleoedd o ran caffael drwy'r cymalau cymdeithasol gan sicrhau bod y gweithlu</p>	




	<p>sydd yn cael ei recriwtio ar gyfer yr adeiladu yn bobl leol os yn bosib.</p>	
--	---	--


<p>Nod Llesiant</p>	<p>A yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau positif a negatif</p>	<p>Beth sydd wedi ei wneud/yn mynd i gael ei wneud er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negatif neu gyfrannu'n well at yr effeithiau positif?</p>
<p>Cymru Gydnerth Cynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau sydd yn cefnogi dygnwch ac yn medru addasu i newid (e.e. newid hinsawdd)</p>	<p>Os caiff y cynnig ei gytuno, bydd adeilad newydd yn cael ei adeiladu – bydd hyn yn unol gyda pholisi carbon sero net y Cyngor. Bydd sefydlu cynnig darpariaeth SNRB ar gyfer Cyfnodau Allweddol 3,4 a 5 yn lleihau'r angen i gludo plant i lefydd y tu hwnt i'r sir.</p>	
<p>Cymru Iachach Mae Llesiant corfforol a meddyliol o'r pwys mwyaf ac mae'r effeithiau iechyd yn cael eu deall</p>	<p>Gallai'r cynnig yma arwain at fwy o ddysgwyr yn mynychu ysgol yn eu cymuned ac yn medru cerdded i'r ysgol yn hytrach na chael eu cludo. Bydd unrhyw adeilad newydd yn cynnwys Teithio Llesol. Bydd llwybrau seiclo a cherdded newydd i'r ysgol yn cael eu datblygu.</p>	<p>Bydd gwaith yn cael ei wneud gyda'r Dysgwyr yn yr holl ysgolion sydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig er mwyn deall yr hyn y maent yn ffafrio o ran teithio i'r ysgol a'n sicrhau bod unrhyw benderfyniadau er budd y Dysgwyr sydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig</p>
<p>Cymru o gymunedau cydlynus Cymunedau sydd yn ddeniadol, hyfyw, diogel ac wedi cysylltu'n well.</p>	<p>Bydd dysgwyr yn parhau yn eu cymunedau. Gyda hyb newydd yn Y Fenni, byddwn yn ceisio manteisio i'r eithaf ar effaith yr hyb ar y gymuned leol gan sicrhau bod yr ysgol newydd arfaethedig yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol drwy gynnig mynediad a'r cyfle i rannu'r hyb.</p>	

<p>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang Yn ystyried yr effaith ar lesiant byd-eang tra'n ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylchedd lleol</p>		
<p>Cymru o ddiwylliant byw ac iaith Gymraeg ffyniannus</p>	<p>Os yw'r cynnig yn cael ei ddatblygu, bydd yr iaith Gymraeg ac amcan polisi Llywodraeth Cymru o Un Filiwn o Siaradwyr Gymraeg yn cael eu cefnogi gan ehangu'r nifer o ddisgyblion ysgol gynradd sydd yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yng ngogledd y Sir.</p>	
<p>Mae diwylliant, etifeddiaeth a'r iaith Gymraeg yn cael eu hyrwyddo a' u diogelu. Mae pobl yn cael eu hannog i wneud chwaraeon, celf a hamdden</p>		
<p>Cymru fwy cydradd</p> <p>Mae pobl yn medru cyflawni eu potensial – nid oes ots beth yw eu cefndir neu amgylchiadau</p>	<p>Mae'r ddwy ysgol sydd yn rhan o'r cynllun yn meddu ar y cyfraddau uchaf o ddisgyblion sydd yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn y sir (ymhlith ysgolion cynradd ac uwchradd). Yr ardal sydd wedi ei nodi yw'r ardal sydd a'r lefelau uchaf o amddifadedd economaidd fel sydd yn cael ei nodi yn yr asesiad Llesiant. Dylai'r buddsoddiad yn y model ysgolion 3-19 gael mwy o effaith ar fyfyrwyr sydd yn gymwys am brydau ysgol am ddim drwy eu hadnabod yn gynnar, elwa o ymyrraeth wedi ei thargedu a monitro a thracio parhaus.</p>	

5. A yw eich cynnig yn cynnwys ac yn blaenoriaethu egwyddorion llywodraethiant cynaliadwy o ran ei ddatblygiad?

<p>Egwyddor Datblygu Cynaliadwy</p>	<p>A yw eich cynnig yn arddangos eich bod wedi cwrdd â'r egwyddor yma? Os felly, disgrifiwch sut. Os nad yw hyn yn digwydd, esboniwch pam.</p>	<p>Beth sydd wedi ei wneud/yn mynd i gael ei wneud er mwyn lliniaru unrhyw effaith negatif neu gyfrannu'n well at yr effeithiau positif?</p>
--	---	---

 <p>Long Term</p>	<p>Yn taro cydbwysedd rhwng anghenion byrdymor a hirdymor gan gynllunio ar gyfer y dyfodol</p>	<p>Os yw plant yn medru mynychu ysgol o fewn y gymuned, maent yn fwy tebygol o barhau gyda'u haddysg o fewn y gymuned.</p>	
<p>Egwyddor Datblygu Cynaliadwy</p>	<p>A yw eich cynnig yn arddangos eich bod wedi cwrdd â'r egwyddor yma? Os felly, disgrifiwch sut. Os nad yw hyn yn digwydd, esboniwch pam.</p>	<p>Beth sydd wedi ei wneud/yn mynd i gael ei wneud er mwyn lliniaru unrhyw effaith negatif neu gyfrannu'n well at yr effeithiau positif?</p>	
	<p>Yn gweithio gyda phartneriaid eraill er mwyn cyflawni amcanion</p>	<p>Bydd y cynnig hwn yn caniatáu partneriaid i weithio yn fwy agos er mwyn creu newid o ran amddifadedd sosioeconomiadd. Yn gweithio gyda'n gilydd er mwyn sicrhau cynnydd rhwng y cyfnodau allweddol.</p>	
 <p>Involvement</p>	<p>Cynnwys y rhai hynny sydd â diddordeb a'n gofyn am eu barn</p>	<p>Bydd adolygiad agored yn cael ei gynnal a fydd yn gofyn am farn cymuned yr ysgol gyfan cyn gweithredu'r cynnig</p>	
 <p>Prevention</p>	<p>Neilltuo adnoddau ar gyfer atal problemau rhag digwydd neu waethygu</p>	<p>Bydd yr ailddatblygiad o'r ysgolion sydd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd yn caniatáu ymyriadau effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc. Efallai y bydd hyn mewn sawl maes gwahanol, o ffitrwydd gwell a lles i ymyriadau cynnar mwy penodol o ran dysgu. Un o fanteision allweddol y model 3- 19 yn y cynnig yw'r effaith ar y dysgwyr a fydd yn gymwys am brydau ysgol am ddim.</p>	

	<p>Yn ystyried yr effaith ar yr holl amcanion llesiant gyda'i gilydd ac ar gyrff eraill</p>	<p>Bydd y cyfleoedd sydd yn cael eu cynnig yma yn caniatáu'r awdurdod i gymryd persbectif mwy eang o'r ystod o heriau yn y maes hwn. Bydd y cynnig yn caniatáu grwpiau a phartneriaid gwahanol i ystyried sut i weithio gyda'i gilydd a sut y maent yn medru manteisio i'r eithaf ar yr effaith ar ddysgwyr a'r gymuned ehangach a fydd yn defnyddio'r ysgol.</p>	
---	---	---	--

6. Mae'r Cyngor wedi cytuno i'r angen i ystyried effaith ei benderfyniadau ar y cyfrifoldebau gwahanol canlynol: Rhianta Corfforaethol a Diogelu. A yw eich cynigion yn mynd i effeithio ar unrhyw uno'r cyfrifoldebau yma?

	Disgrifiwch unrhyw effeithiau positif y bydd eich cynnig yn eu cael	Disgrifiwch unrhyw effeithiau negatif y bydd eich cynnig yn eu cael	Beth sydd wedi ei wneud/yn mynd i gael ei wneud er mwyn lliniaru unrhyw effaith negatif neu gyfrannu'n well at yr effeithiau positif?
Diogelu	Gyda'r ail-ddatblygu arfaethedig o safle Ysgol Brenin Harri'r VIII, efallai bod yna gyfle i fynd i'r afael gyda rhai materion diogelu o ran pa mor agored yw safle'r ysgol a'r defnydd cymunedol parhaus		
Rhianta Corfforaethol	N/A	N/A	N/A

7. Pa dystiolaeth a data sydd wedi llywio datblygiad eich cynnig?

Arolwg cyflwr ac addasrwydd Faithful and Gould gan gynnwys rhestr o'r gwaith cynnal a chadw sydd eisoes angen ei wneud (mae'r ddogfen sy'n amlinellu'r Cynnig yn nodi'r mesurau cynnal a chadw sydd eu hangen)

- Data am bwy sy'n gymwys am brydau bwyd ysgol am ddim
- Data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru – fel sydd wedi amlinellu yn Asesiad Llesiant yr un ar ddeg Ardal Cynnyrch Canolig yn Sir Fynwy
- Llefydd dros ben – data o dîm Mynediad CSF
- Ffigyrau carfan cadw - data o dîm Mynediad CSF
- Data Cynllunio Llefydd - tîm Mynediad CSF
- Gwybodaeth o'r arolwg o rieni sydd yn ymwneud gyda'r addysg iaith Gymraeg
- Gwybodaeth ynglŷn â datblygu tai sydd yn dod o Gynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy
- Gwybodaeth o'r digwyddiadau ymgynghori a'r dystiolaeth ysgrifenedig

8. CRYNODEB: O ganlyniad i lenwi'r ffurflen hon, beth yw prif effeithiau positif a negatif eich cynnig, sut y maent wedi llywio/newid datblygiad y cynnig hyd yma a beth fyddwch yn gwneud yn y dyfodol?

Prif fanteision y cynnig yn ei ffurf bresennol yw ail-ddatblygu ysgol na sydd yn addas i'r diben mwyach ac yn caniatáu plant i gael mynediad at y cwricwlwm mewn llety addas. Mae cynnwys cynnig 3-19 yn meddu ar y potensial i elwa'r disgyblion a'r myfyrwyr hynny sydd yn derbyn prydau bwyd ysgol am ddim a grwpiau bregus eraill.

9. CAMAU GWEITHREDU: O ganlyniad i lenwi'r ffurflen hon, a fyddwch yn cymryd camau eraill? Rhowch fanylion isod os gwelwch yn dda.

Beth ydych yn mynd i wneud	Pryd ydych am wneud hyn?	Pwy sydd yn gyfrifol
O ganlyniad i'r ymgynghoriad a diwygio'r EQIA, bydd yr hysbysiadau statudol a gyhoeddir yn cynnwys diwygiad bach o'r cynnig a gyhoeddwyd gan y bydd yr ysgol nawr yn ddarpariaeth ar gyfer 3 – 19 gyda darpariaeth addysg feithrin a gynhelir.	Yn yr adroddiad Cabinet sydd i'w ystyried ar 6ed Hydref	Will McLean, Chief Officer

10. RHEOLI FERSIYNAU: Dylid defnyddio'r Gwerthusiad Cydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol mor gynnar ag sydd yn bosib, er enghraifft yn anffurfiol o fewn eich gwasanaeth, ac yna ei datblygu eto yn ystod y broses o wneud penderfyniad. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon er mwyn dangos sut ydych wedi ystyried a gweithredu ar yr ystyriaethau cydraddoldeb a chenedlaethau'r dyfodol lle bynnag bo'n bosib.

Rhif y Fersiwn.	Cam gwneud penderfyniad	Dyddiad a ystyriwyd	Disgrifiad cryno o unrhyw ddiwygiadau a wnaed yn dilyn ystyriaeth
2.0	Penderfyniad Cabinet ar ôl yr ymgynghoriad	6/10/2021	